

Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy

Tachwedd 2011

Ysgol yr Hendre

Ar 16 Tachwedd, cafodd adeilad newydd Ysgol yr Hendre gael ei agor.

Dechreuodd yr ysgol yn 1996 wrth i Monica Jones gynnal dosbarthiadau meithrin yn ei chartref yn Nhrelew, dan yr enw 'Y Ddraig Fach'. Pan gyrhaeddodd Catrin Morris yn athrawes gyda'r cynllun dysgu y flwyddyn ganlynol, cynhaliodd hithau ddosbarthiadau yn ei thŷ a Shirley James yn dysgu mewn quincho, ac erbyn diwedd y 1990au defnyddiai Judith Jones gapel y Tabernacl i gynnal gwersi.



Yn 2004 trefnwyd cyfarfodydd er mwyn datblygu'r ysgol, a sicrhawyd cefnogaeth Dafydd Wigley yng Nghymru i'r fenter hon. Yn ogystal â'r trefniadau ymarferol a'r gwaith papur, cynhaliwyd gwahanol weithgareddau i gasglu arian tuag at sefydlu ysgol, gan gynnwys arwerthiant un o ddarluniau Kyffin Williams, a chafwyd rhoddion ariannol gan unigolion yn yr Ariannin a Chymru.

Ar 3 Mawrth 2006, agorodd Ysgol yr Hendre ei drysau am y tro cyntaf. Y Meithrin a'r Derbyn oedd yr unig ddosbarthiadau bryd hynny, ond erbyn hyn mae 70 o blant, o'r Meithrin hyd flwyddyn 5 yn mynychu'r ysgol bob dydd. Enillodd yr adran feithrin statws Sêr Cylch Rhagorol Mudiad Ysgolion Meithrin yn 2010. Ar Ŵyl y Glaniad y llynedd - 28 Gorffennaf 2010 - gosodwyd carreg sylfaen yr adeilad newydd ar safle'r drws nesaf i Gapel Moriah.



Agorodd y seremoni gydag anthem yr Ariannin, cyn i Gôr Cymysg Ysgol Gerdd y Gaiman ganu'r fendith. Bu disgyblion Ysgol yr Hendre yn flaenllaw. Cariodd Mercedes Meza White y faner gyda Joaquin Ojeda a Rhonald Sechi Lloyd, roedd plant y Meithrin yn dawnsio gwerin, a'r côr yn canu 'Sosban Fach'. Anerchodd Dr David Williams, Cadeirydd Pwyllgor Cylch Cymraeg Trelew y dorf oedd wedi ymgynnull yno, gan ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r ysgol ac i'r fenter ddiweddaraf. A hon yn un o'i seremoniau olaf yn Llywodraethwr y dalaith, mynegodd

Mario Das Neves ei hapusrwydd o agor yr adeilad newydd, a llofnododd gytundeb ariannol ar gyfer dathliadau 150 mlwyddiant y Wladfa ac adnewyddu capeli'r dyffryn - diolchodd Irma Williams iddo ar ran yr Undeb. Ar ôl canu Hen Wlad Fy Nhadau, roedd cyfle i grwydro'r adeilad gyda'i thair ystafell ddosbarth, neuadd, ystafell athrawon, a chegin, dros wydraid o siampên a theisen ddu.

Ysgol ddwyieithog yw Ysgol yr Hendre, sy'n cynnal dosbarthiadau creiddiol bob bore a gweithdai amrywiol gyda'r prynhawn, sy'n cynnwys celf, côr, gwyddbwyll ac ymarfer corff. Mae 100 o enwau eisoes ar gofrestr yr ysgol erbyn 2012, a phlant oedran blwyddyn 6 am y tro cyntaf. Bydd rhai o blant yr ysgol yn symud i'r safle newydd pan fydd yr ysgolion yn aildechrau ym mis Mawrth.



Mae'r achlysur hwn yn nodi carreg filltir yn hanes yr ysgol ac yn hanes addysg Gymraeg yn y Wladfa. Llongyfarchiadau Ysgol yr Hendre, a dymuniadau gorau at y dyfodol!

Atgofion yr Athro Robert Owen Jones

Fis Rhagfyr eleni bydd 40 mlynedd er i mi ymweld â'r Wladfa am y tro cyntaf yn 1971! Syrthiais mewn cariad â Dyffryn Camwy a'i drigolion a chefais fy nenu'n ôl dros ugain gwaith wedi hynny. Roeddwn yma i geisio cofnodi amrywiadau'r Gymraeg, ac yn ifanc a dibrofiad tybiais y gallwn wneud gwaith da o fewn 6 wythnos. Bûm wrthi megis yn lladd nadroedd yn crwydro ar hyd a lled y Dyffryn gan holi a chofnodi rhai ugeiniau yn sgwrsio yn y Gymraeg, a fy nhywysydd ffyddlon oedd Hilda Jones o Fryngwyn. Roeddwn yn awyddus i gael trawstoriad o siaradwyr Cymraeg, yn ddynion a merched o bob oedran a chefnidir.



Cwrddais â chymaint o bobl ddiddorol - unigryw a dweud y gwir - wedi eu geni a'u magu yn y Wladfa, a rhieni llawer ohonynt o'u blaenau. Roeddynt mor Gymreig eu hiaith, eu ffordd o fyw, a'u ffordd o edrych ar fywyd, gallent yn rhwydd fod wedi dod o gefn gwlad Cymru. Ond gwladfawyr oeddynt yn ymfalchïo'n fawr yn eu tras, eu hiaith, eu diwylliant, a'u hunaniaeth unigryw fel Cymry'r Ariannin. Roedd y ddeuliaeth hon yn bwysig iddynt. Pur fratiog oedd gafael llawer ohonynt ar y Sbaeneg gan eu bod i raddau helaeth yn cymdeithasu o fewn y cylch Gymreig. Mynychodd llawer ohonynt yr Ysgol Ganolraddol, felly roedd darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn dod yn rhwydd iddynt. Dyma'r bobl a daniodd fy nychmyg. Dyma gysgod o gymdeithas a oroesodd yn nannedd problemau enbyd ac a fynnai warchod ei hunaniaeth er bod arwyddion yr amser yn darogan difodiant - a minnau'n cael y fraint o'i hadnabod! Byddai'n rhaid

dychwelyd gan i mi ond megis crafu'r wyneb lle roedd y cofnodi ieithyddol yn y cwestiwn, ac roeddwn ar dân eisiau adnabod llawer mwy ar y gymdeithas unigryw hon yn Ne'r Ariannin.

Daeth y cyfle yn 1973 wrth i Brifysgol Bangor fy ryddhau o'm dyletswyddau dysgu am flwyddyn, ac enillais ysgoloriaeth i'm cynnal i a'r teulu. Treuliasom flwyddyn hapus ond prysur iawn yn Gaiman. Bûm i wrthi'n holi a chofnodi pobl yn siarad Cymraeg ar hyd y Dyffryn, gan ddod i adnabod cannoedd o bobl o bob oedran a gwneud llu o ffrindiau sy'n dal yn annwyl ac yn agos atom. Cefais groeso twymgalon ym mhobman a digon o fara cartref a theisennod i fwydo byddin! Ar yr ymweliadau hyn y blasais am y tro cyntaf erioed ddanteithion megis bara llechwan, pizza, 'ñoquis', 'fideos' heb sôn wrth gwrs am "asado".

Bu Nesta'n ddiwyd efo dosbarth Ysgol Sul Cymraeg i blant ym Methel tra pregethwn innau'n gyson bob Sul - yn Gymraeg, wrth gwrs! Gwerthfawrogwyd y gwasanaethu gan yr eglwysi a bu'r fraint o gynorthwyo'n fendith aruthrol i ni'n dau. Ymroes Nesta hefyd i sefydlu Cylch Meithrin Cymraeg a gynhaliwyd yn ystafell flaen yr Ysgol Ganolraddol, a bu Luned Gonzalez yn gefn cadarn i'r fenter honno. Roedd loan a Catrin wrth eu bodd yn chwarae a chanu efo rhyw naw o ffrindiau bach newydd a'r rhan fwyaf heblaw am Judith a Brian Williams yn ddi-Gymraeg. Mae'n dda nodi mai un o'r criw oedd bachgen bach swil o'r enw Juan Davies, sydd bellach yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg yn Gaiman ac yn arweinydd eisteddfodol cyfrwng y Gymraeg. Mae'n syndod fel y gall y fesen fach dyfu'n dderwen gref! Roedd dychwelyd i Gymru'n dipyn o sioc a sylweddolodd y ddau ohonom ein bod wedi ymgartrefu'n hynod o dda yn Gaiman, ac wedi dod i berthyn i'r gymuned.



Ers pymtheg mlynedd dwi wedi ymweld â chi'n flynyddol fel cyfarwyddwr ac arolygydd **Cynllun yr Iaith Gymraeg**.

Rhoddodd hyn bleser mawr i mi yn enwedig wrth weld y freuddwyd yn dechrau cael ei gwireddu. O ddechrau digon distadl mae'r gwaith wedi tyfu'n aruthrol a bellach mae 100 awr yr wythnos o wersi Cymraeg yn cael eu rhoi yn ardal Gaiman/ Dolafon yn unig, gyda 582 o ddisgyblion yn ymrestru ar gyrsiau Cymraeg eleni. Mae'n anhygoel, onid yw? Mae dros 90% o'r rhai sy'n mynychu dosbarthiadau o dan 20 mlwydd oed! Mae mwy o blant a phobl ifanc yn dysgu'r Gymraeg nac erioed o'r blaen, a rhaid dweud bod ansawdd yr addysg feithrin, yr ôl feithrin a'r ardddegau yng Ngholeg Camwy a Choleg Aliwen o safon uchel iawn. Mae 108 awr yr wythnos o wersi Cymraeg yn Nhrelew a'r cyfran helaethaf yn Ysgol yr Hendre. Dyma wireddu'r freuddwyd gynnau a gefais i'm sbarduno i berswadio'r gweithwyr ffyddlon yn Nhrelew i ddechrau dosbarth meithrin. Datblygodd Ysgol yr Hendre rhyw bum mlynedd yn ddiweddarach!

(Darllenwch fwy ar dudalen 3)



Onid dydy'r Gymraeg ddim yn iaith yr ifanc yn hollol chwaith gan nad ydyn nhw'n cael cyfle i ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddysgu yn y dosbarth mewn sefyllfa gymdeithasol. Yr unig ffordd y gall y cynllun lwyddo yw i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach â phob un sy'n ei deall. Mae angen creu sefyllfaoedd lle gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r hyn a ddysgant yn y dosbarth mewn sefyllfaoedd cymdeithasol normal. Mae dysgu iaith yn golygu mwy na meistrolï geirfa a chystrawen; mae'n golygu ei defnyddio! Mae'n golygu gwneud dewis bwriadol i fanteisio ar bob cyfle i'w defnyddio. Dyna yw prif orchwyl *Menter Patagonia* - creu sefyllfaoedd cymdeithasol ac ymestyn defnydd o'r Gymraeg. Os na ddigwydd hynny bydd yr holl lafur a'r holl fuddsoddi wedi bod yn ofer. Bydd y Gymraeg yn cael ei dysgu, ond ni fydd yn berthnasol yn gymdeithasol ac felly iaith farw fydd hi.

Nid fy mhregethu i sy'n mynd i sicrhau dyfodol yn y Wladfa i'r Gymraeg, ond yn hytrach ewyllys cryf a phenderfyniad pobl y Wladfa eu hunain. Mae'n drysor gwerth ei chynnal a nawr yw'r amser gorau wrth i chi ddynesu at ddathliadau'r can mlwydd a hanner.

Daliwch ati! Pob hwyl i chi! Diolch am gael bod yn rhan o'r fenter fawr.

Holi Nivia Owen...

1. Ble cawsoch chi eich geni? *Yn Nhir Halen.*

2. Beth yw eich atgof cynharaf?

Dwi'n credu syrthio i ffos fechan oedd yn pasio wrth ochr y tŷ pan oeddwn i'n rhyw flwydd a hanner.

3. Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?

Adre, efo Mam a Dada. Do'n i ddim yn siarad Sbaeneg nes i mi fynd i'r ysgol yn 7oed.

4. Beth ydy eich hoff air Cymraeg?

Does gen i ddim hoff air, ond mae sain geiriau fel 'archfarchnad' a 'llongyfarchiadau' dwi wedi'u dysgu dros y 10 mlynedd diwethaf yn drawiadol ac yn effeithiol.

5. Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?

Dwi'n hoffi darllen hanes - lleol, y dalaith, Patagonia, a'r Ariannin er mwyn deall sut ry'n ni wedi cyrraedd y sefyllfa bresennol.

6. Beth nad ydych chi'n hoffi ei wneud? *Dwi ddim yn hoffi yfed mate!*

7. Ers pryd ydych chi'n athrawes Gymraeg?

Yn 1991, ar ôl ymddeol es i'r dosbarth Cymraeg yn Nolaon bob dydd Mercher. Roeddwn i'n cael trafferth rhoi dau air at ei gilydd gan mod i'n meddwl yn Sbaeneg! Pan ddaeth Siân Eleri Hughes gyda'r cynllun dysgu yn 1997 cynigiais aros yn y dosbarth i'w helpu gyda'r Sbaeneg ac yn yr un flwyddyn a bŵm yng Nghymru ar y cwrs cyntaf i diwtoriad. Yn 2005 dechreuais ddysgu ar fy mhen fy hun am y tro cyntaf ac erbyn hyn mae gen i ddosbarth WLPAN yn Nolaon bob prynhawn Gwener.

8. Pa atgof sydd gennych chi o fynychu'r ysgol?

Ro'n i a fy chwaer yn mynd i'r ysgol yn Nhir Halen ar gefn ceffyl. Roedd ar y ceffyl ofn peli o wellt, ac yn ystod y flwyddyn gyntaf fe luchiodd ni i'r llawr 22 o weithiau! Roedd hi'n drafferthus mynd yn ôl arno. Erbyn yr ail flwyddyn ro'n i wedi dod yn fwy o feistr, a dim ond pedair gwaith y cawson ni ein lluchio oddi arno!

9. Beth yw eich hoff lyfr?

Dim un yn benodol, ond dwi'n hoff o lyfrau hanes.

10. Beth ydy eich hoff/cas fwyd?

Mae asado cig oen a chig eidion yn dda. Dwi'n hoffi llawer o fwydydd ac wedi blasu gwymon yng Nghymru! Dwi ddim yn cael blas ar mate.

11. Ble mae eich hoff le yn y byd? *Dolafon.*



Diwrnod arbennig yng Nghomodoro

Roeddwn ni'n hapus iawn i groesawu Lois Dafydd a Nia Wynne ar ddydd Sadwrn y 12fed o Dachwedd. Rhaid i mi ddweud ein wedi bod ar goll rhywle yn y ddinas am awr - roedd y sefyllfa yn ddoniol iawn. Ar y naill law, roedd grŵp o bobl sy'n siarad Cymraeg ers amser maith, ac ar y llaw arall pobl ifanc o'r grŵp dawnsio gwerin Tân Bach sy'n dysgu Cymraeg am y tro cyntaf. Yn ystod y dydd, buon ni'n siarad, yn darllen, yn dysgu ac yn ymarfer llawer o Gymraeg, yn ogystal â dod i adnabod ein gilydd.



A dweud y gwir, cawson ni amser ffantastig! Yn bersonol, dw i'n meddwl bod y gemau'n ardderchog i ddysgu'r iaith, felly chwaraeon gemau gwahanol gyda'r bobl ifanc. Y parashiwt lliwgar ydy fy hoff gêm, er bod hynny'n anodd credu! Ar ben hynny, roedd hi'n heulog iawn felly roedd y dosbarth allan yn yr haul.



Y diwrnod canlynol, ar ôl cysgu'n eitha da, aethon ni i'r traeth. Efallai ein bod ni wedi nofio gyda'r gwynt cryf dros y dŵr - ond does dim rhaid i chi credu pob peth! Wedyn, buon ni yn Punta del Marquez, Rada Tilly, i Weld y morloi yno, cyn i'r ddwy hedfan yn ôl i Drelew gyda'r gwynt!

Diolch o galon, rydym yn edrych ymlaen at eich gweld chi eto!

Agustina Torá

Noson Lawen Gaiman

Ar 29 Tachwedd cynhaliodd dosbarthiadau Cymraeg Gaiman Noson Lawen yn Hen Gapel Bethel.

Cyflwynwyd y noson o adloniant gan Gonzalo Lizama, ac eitemau gan y dosbarthiadau. Roedd y syrcau wedi cyrraedd Gaiman wrth i blant yr ôl-feithrin berfformio sgets lliwgar. Ymddangosodd cŵn, cwningen, hwyaden, morlo, llew, eliffant a dau glown ar y llwyfan! Roedd y perfformiadau eraill yn cynnwys rap y tywydd gan flynyddoedd un a dau Ysgol Camwy, sgets ddifyr am werthu pysgod gan ddisgyblion eraill, grŵp dawnsio gwerin, a'r arddegau'n cydadrodd cerdd Myrddin ap Dafydd, 'Calan Gaeaf' a enillodd yn Eisteddfod y Bobl Ifanc yn ddiweddar.



Roedd pawb yn llawn cyffro wrth i'r raffl gael ei dynnu, a llu o wobrau ar gael i berchnogion y tocynnau lwcus - pedwar te Cymreig, cryno ddisgiau o gerddoriaeth Gymraeg, lliain sychu llestri 'Hen Wlad Fy Nhadau', mwg draig goch, a phe cyn o fagiau te o Gymru. Roedd yr enillwyr yn wên o glust i glust yn derbyn eu gwobrau!



Chafodd y gynulleidfa ddim eistedd yn ôl am y noson gyfan, wrth iddyn nhw rannu'n ddau dîm ar gyfer cwis hwyliog ar hanes y Wladfa. Yn olaf ar y llwyfan oedd dosbarth Juan Davies yn cydadrodd Gweddi'r Arglwydd, cyn i'r noson ddod i ben gyda 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Roedd hi'n gyfle arbennig i gloi'r flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at weld ein gilydd y flwyddyn nesaf.



‘Y Drafod’ yn 120 oed

Eleni yw cant ac ugeinfed pen-blwydd papur newydd Cymraeg y Wladfa, ‘Y Drafod’. Sefydlwyd y papur ’nôl yn 1891, ond nid ‘Y Drafod’ oedd papur newydd cyntaf y Gwladfawyr. Rai blynyddoedd cyn hynny, cafodd Lewis Jones, Plas Hedd, hen argraffwasg ym Muenos Aires a gyda honno argraffwyd rhai rhifynnau o’r papur newydd ‘Ein Breiniad’. Hwn oedd y papur newydd argraffedig cyntaf ym Mhatagonia. Cyn hynny ‘Y Brut’ oedd y papur Cymraeg, dan ofal Richard Berwyn, a hynny cyn belled yn ôl â 1865 (papur a gâi ei ysgrifennu â llaw oedd hwnnw).

Bu’r ‘Drafod’ yn bapur wythnosol ar un cyfnod, yna’n fisol, ac ers 2004 rwyf i wedi bod yn cydweithio â Laura a Rebeca Henry i gyhoeddi’r ‘Drafod’ deirgwaith y flwyddyn. Mae hi’n fraint arbennig cael bod yn gyfrifol am ei barhad - er nad yw hynny’n waith hawdd ar adegau! Fel sy’n wir am bob papur

‘bro’ am wn i, cryn gamp yw cael cyfraniadau ac erthyglau difyr. Fodd bynnag, gyda chymorth cnewyllyn bach o gyfeillion rydym yn llwyddo i’w gyhoeddi yn weddol rheolaidd. Un hwb a gawson yn ddiweddar oedd i Gymdeithas Cymru Ariannin benderfynu talu am gopi o’r ‘Drafod’ i bob un o’u haelodau yng Nghymru. Fodd bynnag, papur y Wladfa yw’r ‘Drafod’; materion Gwladfaol sydd rhwng ei gloriau, a’n darllenwyr ni - waeth cyn lleied ydynt - sydd ar flaen ein meddwl bob amser wrth ysgrifennu ar ei gyfer.

I gloi, dyma ddyfyniad o erthygl olygyddol Irma Hughes de Jones a ymddangosodd yn ‘Y Drafod’ ym mis Ionawr 1971 pan oedd y papur yn dathlu ei bedwar ugeinfed pen-blwydd - ond yr un yw’r neges heddiw ddywedwn i:

‘Un o’u rhesymau hwy dros ddod i’r Ariannin oedd “i geisio cartre gwell”. Os bu iddynt lwyddo, ac os bydd i ninnau lwyddo, bydd y cartrefi gwell yn sicr o gyfrannu hefyd at y byd gwell y mae pob un ohonom yn ymgeisio at ei gyrraedd. Fel dolen fechan yn y gadwyn, a’r olygyddiaeth yn ein llaw heddiw ar gyrraedd o’r Drafod bedwar ugain mlynedd o wasanaeth i Gymry Ariannin, ein dymuniadau gorau iddi am barhau i ymddangos am bedwar ugain mlynedd arall.

Fe garem ei helaethu a’i gwella, ond hyd yn hyn anodd ydyw sylweddoli ein dymuniadau. Apeliwn eleni eto am gefnogaeth y rhai a wêl werth ynddi a gwahoddwn hwy i ysgrifennu atom a chyfrannu i’w cholofnau. Efallai y gellid amlhau nifer y derbynwyr. Arferiad hen a thraddodiadol yn ein hanes ydyw ei benthyca i gyfeillion a pherthnasau. Sicr nad oes angen gwneud hynny yn y byd sydd ohoni. Gwell a fyddai prynu rhifynnau ychwanegol i’w hanfon i eraill a cheisio eu cael hwythau i ddod yn dderbynwyr cyson. Dyna’r unig ffordd i’w chadw yn fyw yn wyneb costau argraffu a chyhoeddi. Prynwch ddau rifyn. Un i chwi eich hun ac un i gyfaill.’



Esyllt Nest Roberts de Lewis



Taith yr Urdd 2011

Fis Hydref cafodd ugain ohonom o Ogledd Cymru'r cyfle anhygoel i deithio i Batagonia am bythefnos gyda'r Urdd. Ar ôl rhyw flwyddyn o gyfarfodydd a chasglu arian, cyrhaeddodd y diwrnod mawr ar 19 Hydref. Wedi 26 awr o deithio cyrhaeddodd Buenos Aires yn ddiogel a mynd yn syth i ddal awyren fechan i Esquel. Profiad gwych oedd gweld y paith am y tro cyntaf! Roedd pawb fel petaent wedi'u

glynu at y ffenestri wrth weld milltiroedd ar filltiroedd o dywod a diffeithwch. Yn ystod yr wythnos gyntaf arhosom yn hostel Casa Verde yn Nhrevelin, gyda thai pren crand yn uchel ar gyrion y pentref a golygfa odidog o fynyddoedd yr Andes ac eira ar eu copaon. Roedd Lois Dafydd ac Iwan Madog, Swyddogion Menter Patagonia wedi trefnu llu o weithgareddau ar ein cyfer.

Ar ôl cyrraedd, prin cawsom gyfle i gael ein gwynt atom gan i ni ruthro i wers dawnsio gwerin gan rai o bobl a phlant Trevelin, oedd yn hwyl! Dyma ein profiad cyntaf o glywed y Gymraeg yno, ar ochr arall y byd - er ein bod yn disgwyl hyn roedd hi dal yn anhygoel ei chlywed. Y diwrnod wedyn, ar ôl taith o amgylch pentref hardd Trevelin, buom yn gwirfoddoli yn Ysgol Gymraeg yr Andes - paentio, chwynnu, a chlirio. Roedd llyfrau, fideos a phosteri Cymraeg ym mhob man, roedd hi'n rhyfedd iawn gweld fideos Sali Mali a Rala Rwdins ben draw'r byd! Cawsom noson wych ac asado traddodiadol ar fferm, lle daeth gaucho i ganu i ni, a'r dydd Sadwrn roeddem yn gyfrifol am gynnal ffair Wanwyn neu 'Feria de la Primavera' yn Esquel. Roedd hi'n ddiwrnod poeth ofnadwy a buom yn chwarae gemau efo plant, gwneud paneidiau a chacennau, paentio wynebau a mwy. Drannoeth aethom i rafftio dŵr gwyn mewn ardal hyfryd yng nghanol mynyddoedd yr Andes, a chawsom hwyl wrth i mi ac un o'r arweinwyr ddisgyn i'r dŵr! Y diwrnod wedyn cawsom wers mate, ac er ei fod yn edrych ac yn aroglu braidd yn rhyfedd, gallwn ddod i arfer efo fo! Aethom hefyd i sgwrsio â rhai o henoed Trevelin a'u Cymraeg yn berffaith. Roedd eu cariad at Gymru, neu'r 'Hen Wlad' a'r iaith yn ysbrydoledig iawn.



Cawsom daith anturus i'r Gaiman ar hyd y paith! Roeddem newydd adael Esquel ar fws dros nos a'r peth nesaf a glywsom oedd clec anferth. Diffoddodd y goleuadau, y teledu a'r gerddoriaeth a theimlwn y bws deulawr yn dechrau troi ar ei ochr! Yn ffodus medrodd y gyrrwr gadw'r bws ar ei fyny, ac ar ôl ychydig cawsom wybod ein bod wedi taro buwch! Bu'n rhaid cau'r lôn, daeth y gwasanaethau brys mewn dim a'r stori ar y newyddion! Roedd tu blaen y bws yn rhacs a bu'n rhaid aros tair awr i fws arall ein casglu ni. Cyrhaeddodd y Gaiman yn ddiogel a'r gimasio yn wahanol iawn i'r hostel yn Nhrevelin! Ond daeth y lle'n gyfforddus gan fod pawb yn adnabod ein gilydd cystal erbyn rŵan. O'r olwg gyntaf sylweddol ni fod y Gaiman yn edrych yn Gymreigaidd iawn efo siopau fel Siop Fara, Teganau, Crefft Werin, Plas-y-Coed a Gwalia Lân. Braf iawn hefyd oedd cael gweld Esyllt, sy'n wreiddiol o bentref Y Ffôr lle dwi'n byw, a'i theulu, a chael croeso mawr ganddynt. Yn y prynhawn aethom i Goleg Camwy i gwrdd ac i siarad â'r bobl ifanc sy'n astudio Cymraeg yno, a thrannoeth aethom i Punta Tombo i weld pengwiniad hefo plant



blwyddyn 4 a 5 Ysgol yr Hendre Trelew. Roedd Cymraeg y plant yma'n anhygoel. Roedd dydd lau yn brysur iawn gan fod seremoni'r Orsedd yn cael ei chynnal yn y Gaiman. Buom yn paratoi te ar gyfer pawb, cyn cerdded i Feini'r Orsedd ar gyfer y seremoni. Teimlai pawb yn emosiynol iawn wrth i'r gynulleidfa gyfan gydganu Hen Wlad fy Nhadau. A'r prynhawn

hwnnw aethom i Ysgol Feithrin y Gaiman, yn canu, sgwrsio, a chwarae hefo'r plant, a chwrddais â theulu Monica am baned, sy'n ffrindiau i'n teulu ni a fuodd yn byw yng Nghymru - roedd hi'n hyfryd eu gweld! Cawsom y cyfle i fynd i Borth Madryn y diwrnod canlynol, lle daeth y realiti o sefyllfa'r Cymry cyntaf a laniodd ym Mhatagonia ar y Mimosa yn 1865 yn fyw iawn.

(darllenwch fwy ar y dudalen nesaf)

Saws Bara - perffaith gyda chig adeg y Nadolig

Cynhwysion: 1 winwns mawr
12 clôf (*clavo de olor*)
570ml llaeth
2 deilen bae
pinsiad o bupur, halen a nytmeg
110g briwsion bara gwyn
110g menyn
60ml hufen (os ydych chi eisiau)



Torrwch y winwns yn hanner a gwrthio'r 12 clôf iddo. Rhewch y winwns mewn sosban gyda'r llaeth a'r dail bae.

Ychwanegwch y pupur, halen, a'r nytmeg. Gadewch y sosban am 30 munud, yna dewch a'r llaeth i'r berw yn araf.

Rhowch y briwsion bara mewn bowlen. Tynnwch y llaeth oddi ar y gwres a'i hidlo mewn i'r briwsion bara. Ychwanegwch y menyn a'r hufen (os ydych yn y ei ddefnyddio), a chymysgu'r cyfan cyn ei roi yn ôl yn y sosban.

Ail gynheswch y saws yn araf. Os yw'n rhy boeth, ychwanegwch laeth poeth ato.

Fin nos cawsom ein profiad cyntaf o Eisteddfod y Wladfa, neu Eisteddfod del Chubut. Roedd yn wefr gweld fod y diwylliant Cymreig cyn gryfed yno o hyd, a buom yno tan oriau mân y bore - a'r diwrnod canlynol hefyd. Does dim stondinau fel ein heisteddfod ni ond yn hytrach roedd mewn campfa enfawr yng nghanol Trelew, efo caffi tu allan i gymdeithasu lle wnaethom ni gyfarfod â llawer o bobl ifanc Patagonia. Roedd pobl wedi teithio am oriau i gyrraedd yr Eisteddfod, a gwelsom lawer iawn o bobl a oeddem wedi'u cyfarfod yn Nhrevelin. Ddydd Sul oedd ein diwrnod olaf ym Mhatagonia, a chymeron ni ran mewn Cymanfa Ganu.



Canom gyda phobl ifanc Ysgol Gerdd y Gaiman yn Sbaeneg a Chymraeg, a oedd yn brofiad emosiynol iawn. Ar ôl asado arall, daeth yn bryd i ni adael y Gaiman a Phatagonia. Roedd pawb yn ofnadwy o drist wrth i ni ffarwelio hefo'r ardal a'n holl ffrindiau newydd!

Roedd yn daith yn fythgofiadwy ac yn brofiad a hanner. Roedd gweld ein hiaith a'n diwylliant mor gryf yno ar ôl bron i 150 o flynyddoedd yn wych. Cawsom gymaint o brofiadau a gwneud cymaint o ffrindiau newydd! Roedd y croeso'n arbennig a'r cysylltiad Cymreig yn wefreiddiol. Mae wedi gwneud i ni gyd werthfawrogi'n hiaith a'n diwylliant unigryw. Fedra i ddim pwysleisio digon pa mor anhygoel oedd y profiad, a hoffwn ddiolch i BAWB am ei wneud yn brofiad bythgofiadwy. Edrychwn ymlaen i'ch gweld draw yng Nghymru i ni gael eich croesawu chi yma!

Anest Evans

Cornel y Dysgwyr

Rincon de aprenda Galés

Y Misoedd / Los Meses

Ionawr

enero

Chwefror

febrero

Mawrth

marzo

Ebrill

abril

Mai

mayo

Mehefin

junio

Gorffennaf

julio

Awst

agosto

Medi

septiembre

Hydref

octubre

Tachwedd

noviembre

Rhagfyr

diciembre



**Diolch yn fawr i
gyfranwyr a noddwyr y
rhifyn hwn...**



PLAS HEDD

Complejo Turístico

**Fflatiau moethus
a heddychlon
ger môr Madryn.**

(02965)471357

Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

Plas-y-Coed

**Tŷ Te hynaf
Gaiman.**

**Croeso Cymreig a
the traddodiadol ers 1944.**

Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.



Dewch i weld y Wladfa



www.teithiautango.co.uk

**Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n
arbenigo yn y Wladfa.**



**Nwyddau ar
gyfer ffermwyr
yn Nhrelew**

camposur

SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.


Gwalia Lân

**Bwyty safonol
gydag awyrgylch
Gymreig a chroeso
cynnes.**



**Cornel Heol Eugenio Tello
a Heol Michael D. Jones, Gaiman.**

Croesair Cerddoriaeth



AR DRAWS

1. SOPRANO, ALTO, _____, BAS (5)
6. OFFERYN SY'N CAEL EI GANU MEWN EGLWYS NEU GAPEL (5)
7. CANWR TANGO ENWOG (6, 6)
8. PWY GYFANSODDODD DŌN 'HEN WLAD FY NHADAU'? (5, 5)
- 9, 10. PWY GYFANSODDODD DŌN ANTHEM GENEDLAETHOL YR ARIANNIN (4, 6)
11. CANWR O GYMRU YN Y FFILM 'SEPARADO': _____ RHYS (4)
14. GWLAD ENEDIGOL JOHANN SEBASTIAN BACH A LUDWIG VAN BEETHOVEN (6)
17. SOLO (5)

I LAWR

1. OFFERYN TRADDODIADOL GYMREIG (5)
2. CANWR SBAENEG A CHYMRAEG O FRYN GWYN (4, 7)
3. TAWEL (5)
5. 'LA NEGRA' (7, 4)
12. EMYN DŌN: CWM _____ (5)
13. TRI PHERSON YN CANU GYDA'I GILYDD (6)
15. UN O'R TRI THENOR: PLACIDO _____ (7)
16. CANU TRADDODIADOL GYMRAEG HEB GYFEILIANT: _____ WERIN (4)
18. CANTAR (4)

Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!

Geirfa'r Mis

ymarferol	<i>práctico</i>
cytundeb	<i>contrato</i>
carreg filltir	<i>hito</i>
deuoliaeth	<i>dualidad</i>
ymddeol	<i>jubilación</i>
achlysur	<i>ocasión/evento</i>
rhoi hwb	<i>dar animo</i>
cyfraniad	<i>contribución</i>
gweithgareddau	<i>actividades</i>
sefydlu	<i>establecer</i>

Vocabulario del Mes

arwerthiant	<i>subasta</i>
adnewyddu	<i>renovación</i>
unigryw	<i>único</i>
gweithdy	<i>taller</i>
gwymon	<i>alga</i>
chwynnu	<i>sacar yuyos</i>
anturus	<i>aventurero</i>
bythgofiadwy	<i>inolvidable</i>
hidlo	<i>damizar</i>
ar hyd a lled	<i>en todos lados de</i>

Cornel y Plant

Llongyfarchiadau mawr i
Bianca Parise
ar ennill y wobr am liwio
Nodi!

Diolch i bawb am gystadlu.

Lliwiwch Siôn Corn!



Chwilair Lliwiau

d	f	u	m	b	i	n	m	y	f	f	i	j	a	glas
u	g	l	c	u	t	h	a	g	l	a	s	t	r	melyn
r	t	h	p	t	h	n	s	w	g	h	n	c	s	coch
dd	g	h	w	m	e	l	y	n	l	b	ch	m		gwyrd
y	p	o	l	rh	o	y	r	s	ng	o	t	l		oren
h	g	b	f	m	p	t	dd	p	h	r	w	o		du
d	e	h	s	d	i	r	a	f	g	e	dd	p		gwyn
r	s	g	w	y	n	b	f	e	d	n	l	u		pinc
ll	a	c	f	dd	c	o	ch	w	s	h	p	i		

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi,
cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2965 386 198